ASTUDIAETH FEIBLAIDD AR GYFER IEUENCTID HŶN
LUC 5: 17-26

A. TRAFODAETH GRŴP NEU FYFYRDOD PERSONOL:
Allwch chi feddwl am unrhyw dro wnaeth Iesu synnu'r bobl o'i gwmpas yn yr efengylau?
Allwch chi feddwl am unrhyw dro wnaeth Iesu eich synnu chi'n bersonol?

DARLLEN LUC 5: 17-26

B. Y DOCTOR GORAU
1) Pam fod y tŷ'n llawn ar ddechrau'r darn? (adnod 15 ac 17)

2) Dychmygwch y darlun o ŵr wedi ei barlysu yn cael ei ostwng drwy'r to (adnod 18-19).
Sut ydych chi'n meddwl y byddai pob un o'r prif gymeriadau (y gŵr wedi ei barlysu, ei ffrindiau, y gynulleidfa, y Phariseaid ac athrawon y gyfraith) yn teimlo wrth weld hyn?

3) Sut mae Iesu'n synnu pawb yn ei ymdriniaeth o'r gŵr clwyfedig (adnod 20)?

4) Beth mae hyn yn ei ddangos i ni am yr anghenion mae Iesu'n ei weld yn ein bywydau?

5) Mae'r arweinwyr crefyddol yn beirniadu Iesu am faddau i'r gŵr am eu bod yn credu mai dim ond Duw sydd â'r awdurdod i roi maddeuant (adnod 21)? Ai dyma'r ymateb cywir?

6) Beth mae ymateb Iesu i fod i ddangos? (adnod 22-26)

C. FFRINDIAU DA
7) Sut mae ffrindiau'r dyn wedi ei barlysu yn dangos eu cyfeillgarwch ymarferol tuag ato? (adnod 18-20)

8) Beth allwn ni ei wneud er mwyn helpu eraill i ddod i adnabod Iesu?

MYFYRDOD PERSONOL
Allwch chi feddwl am ddau beth penodol i'w wneud dros yr wythnosau nesaf er mwyn helpu i gyflwyno Iesu i un o'ch ffrindiau?

CH. CYFLWYNO IESU, 'Y DOCTOR GORAU' I BOBL Y PILIPINAS DRWY WAITH CYMORTH CRISTNOGOL
Bob 5 mlynedd, mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn cynnal apêl tuag at waith Cymorth Cristnogol mewn gwlad benodol. Mae'r Eglwys yn codi arian tuag at y Pilipinas eleni. Bydd yr holl arian a godir yn cael ei drosglwyddo'n syth i nifer o sefydliadau sy'n bartneriaid i Cymorth Cristnogol ac sydd eisoes yn gwneud gwahaniaeth i fywydau cymunedau ar draws y wlad, drwy weithio'n agos gyda staff Cymorth Cristnogol.

Dangoswch cyflwyniad PowerPoint am fywyd Christian Jay Batousa. Gellir ei lawrlwytho o wefan EBC - www.ebcpcw.org.uk

Ystyriwch ffyrdd gwahanol y gallwch chi godi arian at Apêl y Pilipinas.

- Efallai y gallech fod YN DDEWR a mentro ar wifren sip ym Methesda, Gogledd Cymru, gwifren sip cyflymaf y byd, a'r hiraf yn Ewrop.
- Efallai y gallech fod YN GREADIGOL a chynnal gig cerddorol gan ddefnyddio band lleol.
- Efallai y gallech fod YN ACTIF a chyflawni her chwaraeon fel taith feic neu nofio.
- Neu gallech fod YN GYMDEITHASOL a gofyn i griw o ffrindiau ddod draw am bryd o fwyd a gofyn iddyn nhw am gyfraniad.

Mae dolen we Cymorth Cristnogol ynghylch Syniadau Codi Arian yn le da am syniadau ar gyfer eich clwb ieuenctid neu eglwys.
http://www.christianaid.org.uk/Images/A-Z-fundraising-ideas-July-2013.pdf

D. GWEDDI

- Beth ddysgoch chi am Iesu ac amdanoch chi eich hunain yn yr astudiaeth yma? Gweddïwch mewn ymateb, gan ddiolch i Dduw am y gwirioneddau hyn.
- Gweddïwch dros y ffyrdd y gallwch gyflwyno Iesu i bobl eraill yn ystod yr wythnosau nesaf.
- Gweddïwch dros yr hyn fydd pobl yn ei wneud er mwyn codi arian tuag at Cymorth Cristnogol a'u partneriaid yn y Pilipinas, gan ofyn am i'r cymorth ariannol yma fod o fendith i eglwysi, cymunedau ac unigolion fel Christian Jay Batousa (mae ei stori yn y pecyn Apel) ar draws y wlad.

Meryl Walters
Swyddog Gwaith Ieuenctid Hŷn